# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2017

Amser: 08.30 - 08.43

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Paul Davies AC<br>David J Rowlands AC |
| Staff y Pwyllgor: | Siân Wilkins (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth yn cael ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y cynhelid y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2017 –**

- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: ymchwiliadau a gwaith ymgysylltu ar gyfer y dyfodol (30 munud)

**Dydd Mercher 8 Chwefror 2017 –**

- Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Waith Ieuenctid (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)

***Biliau Aelod***

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes am yr amserlen ar gyfer y balot sydd i'w gynnal ar gyfer Biliau Aelod:

  - Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion cyn y balot ar gyfer Biliau Aelod – 16.00 dydd Gwener 20 Ionawr
  - Dyddiad y balot (a'r cyhoeddiad yn y Cyfarfod Llawn) – 25 Ionawr

*Cynigion deddfwriaethol Aelodau*

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes am yr amserlen ar gyfer y ddadl sydd i'w chynnal ar gynigion deddfwriaethol Aelodau:

- Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion - 17.00, 26 Ionawr
- Y Rheolwyr Busnes i ddewis cynnig ar gyfer dadl – 31 Ionawr

Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau – 8 Chwefror

**3.4 Dadl Aelod Unigol: Dewis Cynnig**

Dewisodd y Pwyllgor Busnes dri chynnig ar gyfer dadl: y cyntaf ar 25 Ionawr, a'r ail ar 15 Chwefror, gyda'r trydydd ar ddyddiad i'w gadarnhau ar ôl hanner tymor.

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2017**

- **NNDM6191**
  **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**
  **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
  **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**
  **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**
  **Hefin David (Caerffili)**
  **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn galw ar Lywodraeth y DU i gynnal ymchwiliad cyhoeddus llawn i drychineb gwaed halogedig y 1970au a'r 1980au.

  2. Yn nodi bod 70 o bobl yng Nghymru wedi marw o HIV a Hepatitis C a gawsant wrth gael gwaed halogedig neu gynnyrch gwaed halogedig a bod eraill yn dal i fyw gyda'r heintiau hyn.

  3. Yn cydnabod bod perthnasau mewn galar yn byw gyda chanlyniadau'r drychineb hon.

4. Yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymddiheuro ym mis Mawrth 2015 i bobl a gafodd eu heintio gan driniaeth â gwaed halogedig ac yn nodi ymhellach nad yw'r teuluoedd y mae hyn yn effeithio arnynt, wedi cael atebion llawn ynglŷn â'r rhesymau pam y caniatawyd i hyn ddigwydd a'u bod yn dal i ymgyrchu dros gyfiawnder.

**Dydd Mercher 15 Chwefror 2017**

- **NNDM6204**
  **Hannah Blythyn (Delyn)**
  **Jeremy Miles (Castell-nedd)**
  **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**
  **Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod mis Chwefror yn Fis Hanes LGBT, ac yn gyfle blynyddol i hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ledled Cymru.

2. Yn nodi ymhellach gyfraniad pobl LGBT a mwy i'n cymunedau a'n gwlad.

3. Yn cydnabod y rôl a chwaraeir gan eiconau LGBT a chyfeillion heterorywiol yng Nghymru, fel y dangosir gan yr arddangosfa eiconau a chyfeillion LGBT yn y Senedd y mis hwn.

4. Yn croesawu'r cynnydd a wnaed yn y degawdau diwethaf o ran derbyn LGBT ac o ran eu hawliau.

5. Yn credu bod angen bod yn effro i sicrhau bod hawliau LGBT a mwy yn cael eu diogelu.

6. Yn cymryd yr awenau o ran parhau i hybu cydraddoldeb a herio gwahaniaethu ac anghydfod, gan sicrhau bod Cymru yn genedl groesawgar i bobl LGBT a mwy.

**Yn dilyn hanner tymor (dyddiad i'w gadarnhau)**

- **NNDM6210**
  **Lee Waters**
  **Jeremy Miles**
  **Vikki Howells**
  **Hefin David**

  Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

  1. Yn nodi bod tua 40 y cant o'r gweithlu sy'n cael eu cyflogi yn yr 'Economi Sylfaenol' yn cyflenwi nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel: seilwaith; cyfleustodau; prosesu bwyd, manwerthu a dosbarthu; ac iechyd, addysg a gofal.

  2. Yn cydnabod bod y sectorau hyn yn aml yn fwy abl i wrthsefyll ergydion economaidd allanol a bod ganddynt gryn botensial i sicrhau mwy o werth lleol o ddarparu nwyddau a gwasanaethau lleol.

  3. Yn gresynu fod llawer o'r sectorau o fewn yr Economi Sylfaenol yn nodedig am swyddi â thâl isel ac ansicrwydd.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth i wneud yn fawr o effaith yr 'Economi Sylfaenol' ledled Cymru fel rhan o'i gwaith ar ddatblygu strategaeth economaidd newydd, gan gynnwys mesurau i wella amodau cyflogaeth yn y sectorau hynny.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol diwygiedig ar Fil Cymru

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Diwygiedig ar gyfer Bil Cymru.

Gan fod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei chynnal heddiw, cytunodd y Rheolwyr Busnes i beidio â chyfeirio'r SLCM a'r SLCM diwygiedig at bwyllgor ar gyfer eu craffu.

# 5 Amserlen y Cynulliad

## 5.1 Dyddiadau toriadau'r Cynulliad

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes ddyddiadau'r toriadau yn 2017 ar gyfer y Pasg, y Sulgwyn a'r Haf, a chytunwyd ar ddyddiadau dros dro'r toriadau yn 2017 ar gyfer hanner tymor mis Hydref a'r Nadolig.

| **Toriad** | **Dyddiadau** |
|---|---|
| **Toriad y Pasg**<br>**(3 wythnos)** | Dydd Llun 10 Ebrill 2017 – dydd Sul 30 Ebrill 2017 |
| **Hanner Tymor y Sulgwyn**<br>**(1 wythnos)** | Dydd Llun 29 Mai 2017 – dydd Sul 4 Mehefin 2017 |
| **Toriad yr Haf**<br>**(8 wythnos)** | Dydd Llun 24 Gorffennaf 2017 – dydd Sul 17 Medi 2017 |
| ***Hanner Tymor Hydref***<br>***(1 wythnos)*** | *Dydd Llun 30 Hydref 2017 – dydd Sul 5 Hydref 2017* |
| ***Toriad y Nadolig***<br>***(3 wythnos)*** | *Dydd Llun 18 Rhagfyr 2017 – Dydd Sul 7 Ionawr 2018* |